**<u>Disgrifiad Swydd:</u> <u>Swyddog Ymchwil</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Canolfan Economeg Iechyd Abertawe** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8: £39,355 i £45,413 y flwyddyn a buddion pensiwn USS** |
| **Oriau gwaith:** | **Swydd amser llawn yw hon, sef 35 awr yr wythnos.** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | Dyma benodiad am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2027. |
| **Lleoliad:** | **Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton.** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Rydym yn chwilio am ymchwilydd sydd â sgiliau ymchwil meintiol a dadansoddi ymarferol rhagorol, ynghyd â hanes profedig o brofiad ymchwil o fewn tîm sefydledig i ymuno â'n tîm yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe. Yn y rôl hon, byddwch yn arwain y gwaith o ddylunio, cynnal a chyflwyno dadansoddiadau i gefnogi ystod o werthusiadau economaidd iechyd a gofal ar draws ein portffolio o dreialon ac astudiaethau, gyda phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig. Disgwylir i chi gynnal dadansoddiad gan ddefnyddio data o'r byd go iawn a threialon clinigol. Bydd gennych hanes cryf o ddadansoddiadau meintiol y gellir eu cymhwyso i economeg iechyd, gan gynnwys modelu meintiol. Bydd gennych brofiad cadarn o ddefnyddio meddalwedd, gan gynnwys R, STATA ac Excel.<br><br>Fel Swyddog Ymchwil, byddwch yn gweithio gyda'r uwch-ymchwilwyr i gychwyn a gweithredu astudiaethau ymchwil economeg iechyd, gyda ffocws penodol ar ymyriadau iechyd a gofal cymhleth. Byddwch wedi'ch cydleoli yn Uned Dreialon Abertawe (STU), gan roi cyfle i weithio mewn tîm bywiog a chritigol o ymchwilwyr, methodolegwyr, ystadegwyr ac economegwyr iechyd. Byddwch yn cael eich annog i ddatblygu eich cwestiynau ymchwil eich hun a chyfrannu at hyrwyddo dulliau dadansoddol mewn economeg iechyd a gofal.<br><br>Byddwch yn rhan o Economeg Iechyd a Gofal Cymru (HCEC) sef Canolfan arbenigedd Economeg Iechyd Cymru Gyfan a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.<br>Disgwylir i chi gymryd rhan lawn yn ei weithgareddau i hyrwyddo gwaith Economeg Iechyd a chyfrannu at gymuned fywiog o ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor. Bydd cyfle i chi ddatblygu eich profiad a'ch proffil ym maes ymchwil iechyd. Bydd angen sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog arnoch gan y byddwch yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd a sefydliadau amrywiol, gan gynnwys cydweithredwyr sy'n gleifion, yn ofalwyr ac yn aelodau'r cyhoedd.<br><br>1. Dan arweiniad a mentora uwch-gydweithiwr, cyfrannu'n rhagweithiol at ddylunio, paratoi a darparu dadansoddiadau meintiol i gefnogi darpariaeth gwerthuso economeg iechyd ar gyfer treialon ac astudiaethau byd go iawn.<br>2. Cefnogi gwaith dylunio, adeiladu a gweithredu modelau ystadegol i ymgymryd â dadansoddiadau ar gyfer prosiectau.<br>3. Cynnal adolygiadau llenyddiaeth/ymgymryd ag ymarferion costio i gefnogi mewnbwn data at ddibenion dadansoddi. |
| | 4. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a'i chynnal, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data yn systematig a chyflwyno canlyniadau, gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil. |

| | |
|---|---|
| | 5. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. Disgwylir i'r sawl a benodir gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig y rhai hynny sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, yn rhan arferol o'i rôl.<br>6. Dangos hunangymhelliant a defnyddio menter bersonol er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.<br>7. Defnyddio creadigrwydd i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau ar sail y canlyniadau.<br>8. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol, a'r tu hwnt ym myd diwydiant a masnach ac yn y byd academaidd.<br>9. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol i gefnogi eich gwaith eich hun, gwaith eraill a gwaith y Gyfadran a'r sefydliad yn gyffredinol. Disgwylir i'r unigolyn a benodir gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau o'r fath fel rhan arferol o'i waith.<br>10. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>11. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol a phenodol a'r maes pwnc ehangach a'r goblygiadau ar gyfer cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth neu'r byd academaidd.<br>12. Bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau yn ôl yr angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>13. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygu perfformiad a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>14. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>15. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 16. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>17. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>18. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>19. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd baglor neu ôl-raddedig mewn pwnc STEM meintiol cryf, economeg, seicoleg, iechyd neu'r gwyddorau cymdeithasol, neu bwnc cysylltiedig arall<br>2. Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol a rôl bersonol wrth ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i lunio ymchwil ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol, neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau o'r fath.<br>4. Y gallu i gyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd uniongyrchol a chywir.<br>5. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>6. Profiad o adeiladu gwahanol fathau o fodelau ystadegol a/neu benderfyniadau dadansoddol ym maes gofal iechyd<br>7. Profiad o nodi mewnbynnau data y tu hwnt i ffynonellau cynradd (e.e. llenyddiaeth, ffynhonnell sydd ar gael yn gyhoeddus fel Swyddfa Ystadegau Gwladol) a'i gymhwyso i gynnal dadansoddiad.<br>8. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus |

**Commented [KC1]:** Is this right? 'draft patents...'

| | |
|---|---|
| | **Meini Prawf Dymunol**<br><br>9. PhD mewn pwnc cysylltiedig<br>10. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig<br>11. Profiad blaenorol mewn ymchwil economeg iechyd neu weithio fel economegydd iechyd mewn diwydiant neu Sefydliadau'r GIG/Gofal Cymdeithasol<br>12. Profiad o weithio ym maes llunio polisïau iechyd a gofal cymdeithasol neu ymwneud â hynny. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Mari Jones Uwch fodelydd iechyd a gofal, Canolfan Economeg Iechyd Abertawe<br>mari.jones@abertawe.ac.uk |